


**Wedi'u creu ar y cyd â'r Rhwydwaith LLEISIAU**

VOICES Network

# Deall profiadau pobl o fudo

Y Groes Goch Brydeinig | BritishRedCross

# Deilliannau dysgu

Dysgu sut gallai deimlo i gael eich gorfodi i adael cartref.

Defnyddio eich gwybodaeth i ymarfer empathi, drwy ddarganfod beth sy'n debyg rhyngom ni a'r rhai sy'n mudo.

Rhannu sut gallwch chi helpu ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches i deimlo bod croeso iddyn nhw yn eich cymuned.

VOICES Network

British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig


Cafodd y gweithgareddau rydych chi ar fin eu gwneud eu creu gan chwech o bobl sydd â **phrofiad** o fudo.

Dysgwch am y gwaith mae rhwydwaith **LLEISIAU** yn ei wneud yn y fideo hwn.




VOICES Network

# Meddyliwch am y dewis diwethaf a wnaethoch chi heddiw...




…a oedd yn ddewis anodd ei wneud?

Gadael cartref

BritishRedCross | Y GroesGochBrydeinig

Rydyn ni’n mynd i edrych ar stori am deulu’n cael ei orfodi i wneud rhai dewisiadau **anodd**.

Gwyliwch eu stori a nodwch yr holl **ddewisiadau** roedd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud.





Y Groes Goch Brydeinig
British Red Cross

BritishRedCross



Y Groes Goch Brydeinig
BritishRedCross

Pa **ddewisiadau** oedd yn rhaid i’r adar eu gwneud drwy gydol eu taith?





Beth mae’r adar yn y stori hon yn ei **gynrychioli**?



BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig

# Myfyrio

## A

Meddyliwch am adeg pan oeddech chi mewn lle neu sefyllfa anghyfarwydd. Er enghraifft, ydych chi wedi ymuno â chlwb newydd, wedi symud tŷ neu wedi newid ysgol?

- Sut wnaeth hyn i chi deimlo?
- Ai eich dewis chi oedd symud?
- Sut oedd eich dewis chi yn wahanol i ddewis yr adar?



## B

Meddyliwch sut mae'n teimlo i ddewis aros mewn lle peryglus neu adael i fynd i leoliad anghyfarwydd.

- Yn eich barn chi, sut byddai'n teimlo i adael rhywle diogel?
- Fyddech chi wedi gwneud dewisiadau gwahanol i'r teulu o adar?



BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig

# Stori Mada

Gwrandewch ar y clip o'r podlediad hwn lle mae **Mada** yn sôn am benderfyniad anodd a wnaeth yn ystod ei thaith o Syria i'r Aifft, i'r DU gyda'i **theulu**.




Y Groes Goch Brydeinig
BritishRedCross



**"My son would ask strangers to be his dad"**

A story of theft, a child kidnap attempt... and finally, a happy reunion

Article 2 minutes

# Sut wnaeth gwrando ar stori Mada a'i theulu wneud i chi deimlo?

Cliciwch ar yr erthygl hon i ddarllen stori Mada yn llawn.

Rydych chi'n mynd i archwilio ystafell flêr rhywun

Dewiswch eitem yn yr ystafell a'i disgrifio.

Beth allwch chi ei ddweud am y person o'r eitem?

Cliciwch i ddatgelu'r *stori* y tu ôl i bob un

BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig



Dewiswch eitem.

Yn eich barn chi, beth mae'n ei ddweud wrthym am y person?

Cliciwch ar yr eitem i gael rhagor o wybodaeth

Wedi gorffen archwilio? Cliciwch yma.

# Ystafell Flêr

Y Groes Goch Brydeinig | British Red Cross

Mynd yn ôl i'r ystafell

## Fe wnaeth y ffôn yma...

**Cliciwch yma i ddatgelu'r Stori**



**Oeddech chi'n gwybod...**

Ffonau yw un o'r eitemau mwyaf gwerthfawr i bobl sy'n mynd o un lle i'r llall.



Pe bai'n rhaid i chi adael eich cartref yn gyflym, pa eitemau fyddech chi'n mynd gyda chi?

BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig

Mynd yn ôl i'r ystafell

Y bêl-droed yma... football…

Cliciwch yma i ddatgelu'r stori



**Oeddech chi'n gwybod...**
Pan oedd yn blentyn, fe wnaeth y pêl-droediwr Luka Modrić, ffoi o'i gartref yn ystod Rhyfel Annibyniaeth Croatia.



Ers hynny, mae wedi chwarae i rai o'r clybiau gorau yn y byd, fel Real Madrid, ac mae wedi ennill y Ballon d'Or.

British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig

Mynd yn ôl i'r ystafell

**Roedd yr arth yma...**

**Cliciwch yma i ddatgelu'r Stori**



**Oeddech chi'n gwybod...**

Cafodd 43.3 miliwn o blant eu dadleoli yn 2022 oherwydd gwrthdaro.



Oes gennych chi unrhyw deganau y gallech chi eu rhoi i fudiadau sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn eich ardal chi?

BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig

Mynd yn ôl i'r ystafell



## Y sanau yma...

**Cliciwch yma i ddatgelu'r Stori**

**Oeddech chi'n gwybod...**

Gemau Olympaidd Rio 2016 oedd y rhai cyntaf gyda thîm arbennig ar gyfer ffoaduriaid.

Pam fod y tîm yma wedi cael ei greu, yn eich barn chi?

British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig

Mynd yn ôl i'r ystafell



## Ar y plât gwag yma...

**Cliciwch yma i ddatgelu'r Stori**

## Oeddech chi'n gwybod...

Mae hoff fwydydd y mae pobl y DU yn eu bwyta yn dod o wledydd ledled y byd.



Pa brydau sy'n dod ag atgofion hapus i chi?

Y Groes Goch Brydeinig | British Red Cross

Mynd yn ôl i'r ystafell



Y clustffonau yma...

Cliciwch yma i ddatgelu'r Stori

**Ein podlediad!**
Gwrandewch gyda'ch gilydd i glywed straeon mwy o bobl




BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig

Mynd yn ôl i'r ystafell

Pa rai o'r eitemau hyn sydd gennych chi yn **eich** ystafell?

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am y **person** sy’n byw yn yr ystafell flêr o’r eitemau hyn?

Pa eitem yn eich ystafell sy’n golygu’r mwyaf i **chi**?



Pa **weithredoedd** bach, caredig allech chi eu gwneud yn eich cymuned i wneud i bobl sydd newydd gyrraedd deimlo bod **croeso** iddyn nhw?



British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig

# Dyma rai syniadau...

Rhoi cyfarwyddiadau i rywun sy'n edrych ar goll

Ysgrifennu cardiau i'w croesawu



Darganfod a oes cyfle i wirfoddoli yn eich ardal

Gwahodd pobl newydd i glwb neu weithgaredd rydych chi'n ei wneud



Gwenu ar bobl

Allwch chi feddwl am ragor?

Gwnewch addewid fel grŵp i wneud un weithred garedig bob wythnos am fis.



Rhannwch eich gweithredoedd â'r grŵp ar yr un amser bob wythnos.

British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig

Byddai llysgenhadon LLEISIAU – sydd wedi creu'r gweithgareddau yma – wrth eu bodd yn gweld eich gwaith chi!



Anfonwch unrhyw rai o'r canlynol atom - eich myfyrdodau, addunedau dosbarth a syniadau i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn eich cymuned neu'ch ysgol.



**Ein cyfeiriad e-bost:**
redcrosseducation@britishredcross.org.uk

**Diolch yn fawr!**

VOICES Network

British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig